# POLISI CYFRANDDALWYR ADRA

**CYNNWYS**

1. **ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU**

2. **PWRPAS**

3. **SGÔP**

4. **CYFRIFOLDEBAU**

5. **MANYLION Y POLISI**

6. **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

7. **ADOLYGU**

## 1. ADOLYGIAD/TAFLEN ADOLYGU

| Rhannu | Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid | Perchennog y Ddogfen | Dyddiad Rhannu |
|---|---|---|---|
| 1 | Polisi Newydd | Rhys Evans | 22/09/2010 |
| 2 | Cywiriad | Rhys Evans | 05/01/2011 |
| 3 | Newid i'r dudalen flaen | Rhys Evans | 03/04/2012 |
| 4 | Cywiriadau | Aled Davies | 29/11/2017 |
| 5 | Adolygu yn dilyn Rheolau diwygiedig | Aled Davies | 10/07/2019 |
| 6 | Ail-frandio | Aled Davies | 08/10//2019 |
| 7 | Er mwyn adlewyrchu Rheolau newydd Adra a'r adolygiad o lywodraethu Cyfranddalwyr | Aled Davies | Cymeradwywyd gan y Bwrdd Mawrth 2022 yn barod ar gyfer newid Rheol. Rheolau newydd wedi'i gofrestru gan yr FCA Gorffennaf 2022, ac felly Gorffennaf 2022 yw'r dyddiad gweithredu |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## 2. PWRPAS

Mae **Adra (Tai) Cyfyngedig** (Adra) yn Gymdeithas Gofrestredig o dan y Ddeddf Cwmnïau Cymdeithasau Budd Cymunedol 2014 wedi ei gofrestru gyda rheolau elusennol ac mae'n Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae Adra wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru. Amcan y polisi hwn yw nodi sut y gall unigolion wneud cais i fod yn gyfranddalwyr; ac i osod proses allan sy'n berthnasol i Gyfranddalwyr Adra.

## 3. SGÔP

Amcan y polisi hwn yw nodi'r criteria lle bydd Bwrdd Adra (yn unol â rheolau Adra) yn derbyn ceisiadau i ddod yn gyfranddalwyr. Ni fydd gan gyfranddalwyr Adra unrhyw hawl i unrhyw elw ond bydd ganddynt yr hawl i bleidleisio mewn ar faterion penodol fel mae'r rheolau yn ei nodi.

## 4. CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldeb Tîm Llywodraethu Adra yw'r polisi hwn.

## 5. MANYLION Y POLISI

### 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'n arfer da ac yn ofyniad gan reolau Adra, bod Adra yn mabwysiadu polisi ar gyfer derbyn cyfranddalwyr. Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn ymwneud â phwy ddylai fod yn aelodau'r Bwrdd ond ynglŷn â phwy a ddylai fod yn aelod cyfranddaliwr yn Adra.

5.1.2 Nid yw cyfranddaliad yn Adra yn dal unrhyw hawl i daliadau, ond mae'n dal yr hawl i bleidleisio ar faterion penodol fel sydd wedi eu gosod allan yn ein rheolau. Caiff pleidleisiau eu cyfrif yn unol â'r fformiwla yn C9 y Rheolau.

5.1.3 Mae'r polisi hwn yn nodi sut i ymgeisio i ddod yn gyfranddaliwr a sut y bydd y cais yn cael ei asesu.

5.1.4 Mae gofyn i bob cyfranddaliwr ymrwymo i'r goblygiadau arnynt fel mae rheolau Adra yn nodi a dogfennau cefnogol – gan gynnwys Cod Ymddygiad Adra ar gyfer cyfranddalwyr. Wrth fod yn gyfranddaliwr, mae angen ymddwyn bob amser er lles y gymdeithas ac er budd y gymuned, fel gwarchodwyr amcanion Adra.

## 5.2 Polisi Adra ac addewidion ymgynghori

5.2.1 Fel rhan o'r addewidion ymgynghoriad a wnaed i denantiaid, bu i Adra addo mabwysiadu cyfranddaliad agored gan ganiatáu i holl denantiaid ymgeisio i fod yn gyfranddalwyr. Mae pwrpas mabwysiadu y polisi hwn yw gosod y sail lle bydd y Bwrdd yn ystyried ceisiadau.

## 5.3 Sut i wneud cais

5.3.1 Yn unol â rheol C12 rhaid i bawb sydd eisiau cael eu derbyn fel cyfranddalwyr ymgeisio yn ysgrifenedig. Rhaid i'r cais gael ei wneud ar y ffurflen bwrpasol (CSf11) a'i yrru i'r Tîm Llywodraethu yn Swyddfa Gofrestredig Adra sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd yn Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, Gwynedd, LL57 4BL. Rhaid i bob cais gadarnhau fod yr ymgeisydd bob amser am ymddwyn er lles Adra ac er lles y gymuned, fel gwarchodwyr amcanion Adra.

5.3.2 Rhaid i'r ymgeisydd, ar y ffurflen gais, nodi eu rhesymau dros y cais a chymhwysedd i fod yn aelod yn unol â pharagraff 5.3.5 y polisi hwn. Bydd pob ymgeisydd hefyd yn cynnwys £1.00 (punt), bydd hwn yn cael ei ddychwelyd os na chaiff y cais ei gymeradwyo.

5.3.3 Rhaid i bob ymgeisydd gynnwys gyda'u cais ddatganiad wedi'i lofnodi eu bod wedi darllen ac yn cytuno i gadw at y Cod Ymddygiad Cyfranddalwyr. Bydd y datganiad hwn ar y ffurf a fydd yn ofynnol gan y Bwrdd o bryd i'w gilydd, a bydd yn cael ei anfon gyda'r Ffurflen Gais Cyfranddaliad.

5.3.4 Yn unol â rheol C13, bydd pob cais yn cael ei ystyried gan y Bwrdd (yn unol â'i bolisïau a nodau ar gyfer derbyn cyfranddalwyr newydd - rheol C11). Mae gan y Bwrdd y pŵer o ddisgresiwn llwyr i bennu un ai i dderbyn neu wrthod cais.

5.3.5 Wrth ystyried y cais, bydd y Bwrdd yn rhoi ystyriaeth i sgiliau, rhinweddau a'r profiadau y bydd yr ymgeisydd yn dod gyda nhw i'r gymdeithas, gan gynnwys;

- y cydbwysedd o sgiliau priodol gan gynnwys (ond nid popeth) cyfreithiol, busnes, cyllid, technegol, gwaith cymunedol, profiad sector tai, profiad perthnasol o'r sector gyhoeddus, adnoddau dynol a llywodraethu.
- dangos empathi gyda thai cymdeithasol

5.3.6 Bydd y Bwrdd hefyd yn ystyried y potensial o wrthdaro mewn diddordeb wrth dderbyn ceisiadau (e.e. aelodaeth neu'n swyddog mewn cymdeithas tai arall).

5.3.7 Bydd pob ymgeisydd yn cael gwybod gan yr ysgrifennydd am ganlyniad eu cais o fewn 10 diwrnod gwaith o'i ystyried gan y Bwrdd. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am ddyddiad cyfarfod y Bwrdd nesaf wrth ymgeisio. Os bydd cais yn cael ei wrthod, bydd y rheswm dros ei

wrthod yn cael ei gyflwyno i’r ymgeisydd ac ni fydd hawl gan yr ymgeisydd i ail ymgeisio i gael ei ystyried hyd y bydd yna gyfnod o ddeuddeg mis pellach wedi mynd heibio.

5.3.8 Os caiff ei gymeradwyo, bydd enw a manylion eraill yr ymgeisydd yn cael eu rhoi yn y gofrestr o aelodau gan yr Ysgrifennydd. Bydd un gyfran yn y Gymdeithas yn cael ei roi i’r ymgeisydd.

**5.4 Gofynion sy’n gymwys i gyfranddaliad**

Mae’r gofynion sy’n berthnasol i gyfranddaliad yn cael eu cynnwys yn Rhan C o reolau Adra. Y Rheolau fydd bob amser yn gorchfygu awdurdod ar faterion cyfranddalwyr

**5.5 Cyfranddalwyr Aelod Bwrdd**

5.5.1 O dan reol D5.4, rhaid i holl aelodau’r Bwrdd (heblaw Aelodau Llywodraeth Leol y Bwrdd, aelodau cyfetholedig a gweithwyr Adra neu aelodau ei grŵp) fod yn gyfranddalwyr. Dylai’r Bwrdd felly dderbyn pob aelod Bwrdd o’r fath i fod yn gyfranddalwyr.

**5.6 Pwy na chaiff fod yn gyfranddalwyr**

Yn unol â rheol C6, ni all y canlynol fod yn gyfranddalwyr:

- person dan oed - i'w benderfynu gan y Bwrdd;
- person a gafodd ei ddiarddel fel cyfranddeiliad, os na chafodd awdurdod gan benderfyniad arbennig mewn cyfarfod cyffredinol;
- person a gyflogir gan y gymdeithas neu berson a gyflogir gan aelod o'r grŵp;
- person sy’n berson awdurdod lleol
- person a gafodd ei symud o'r bwrdd yn unol â rheol D5;
- person y mae ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person hynny yn rhoi barn ysgrifenedig yn golygu y daeth y person yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol o ymarfer eu hawl fel cyfranddaliwr ac y gall barhau felly am fwy na thri mis;
- person a gafodd ei ddatgymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni neu ymddiriedolwr elusen am unrhyw reswm, neu a gafwyd yn euog o drosedd dditiadwy; sydd heb neu na fydd yn ddod i ben;
- Person a fyddai fel arfer yn gymwys i fod yn aelod o Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr Adra (neu unrhyw olynydd i’r sefydliad hwnnw), y tybiwyd nad oes ganddo hawl i ddod yn aelod o Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr Adra (neu unrhyw olynydd i sefydliad hwnnw).

**5.7 Ystyriaethau eraill**

5.7.1 Ni fydd unrhyw berson neu gorff yn cael eu rhoi ar y gofrestr o gyfranddalwyr os bydd cofrestriad o’r fath yn golygu bod canran o gyfranddalwyr sy'n preswylio yng Nghymru yn disgyn yn is na 75%.

5.7.2 Gall cyfranddaliwr fod yn enwebai o gorff anghorfforedig.

5.7.3 Gall corff corfforedig fod yn gyfranddaliwr. Gall penodi unigolyn i ymarfer ei hawliau mewn cyfarfodydd cyffredinol. Bydd penodiad o’r fath yn cael ei wneud yn ysgrifenedig, a’i roi i’r Ysgrifennydd.

5.7.4 Gall prydleswyr gael eu derbyn fel cyfranddalwyr tenantiaid ond ni chaiff brydleswr ei dderbyn fel cyfranddaliwr os, wrth ei dderbyn, bod mwy (un degfed) o’r cyfranddalwyr tenantiaid yn brydleswyr.

5.7.5 Ni fydd un cyfranddaliwr yn dal mwy nac un gyfran a bydd un gyfran yn dal un bleidlais. Mae pleidleisiau yn cael eu cyfrif yn unol â’r fformiwla yn C9 o’r Rheolau.

## 5.8 Dod ag Aelodaeth i ben

5.8.1 Rheolau Adra yw’r awdurdod pennaf ar y mater hwn bob amser. Mae'r Polisi hwn yn ategu'r darpariaethau hynny i gefnogi gweinyddu'r Rheolau.

Gall cyfranddaliwr beidio â bod yn gyfranddaliwr os:

- os ydynt yn marw; neu
- os ydynt yn cael eu diarddel dan reol C15; neu
- os ydynt yn gadael y gymdeithas drwy roi un mis o hysbysiad i'r ysgrifennydd a ddaw i rym pan gaiff ei dderbyn, os nad ydynt yn un o'r tri rhanddeiliaid olaf sydd ar ôl ac os felly mae'n rhaid iddynt roi o leiaf un mis o hysbysiad ysgrifenedig i'r ysgrifennydd eu bod yn gadael; neu
- os nad ydynt yn cymryd rhan yn, nac yn cyflwyno ymddiheuriadau ysgrifenedig ymlaen llaw am ddau gyfarfod blynyddol cyffredinol olynol o'r gymdeithas; neu
- yn achos corff corfforaethol os yw'n peidio bod yn gorff corfforaethol; neu
- yn achos enwebai corff anghorfforedig, eu bod yn trosglwyddo eu cyfranddaliad i enwebai arall o'r corff hwnnw; neu
- os ydynt yn peidio bod yn gyfranddeiliad dan reol C6; neu
- bod y gymdeithas yn ysgrifennu at y cyfranddaliwr yn gofyn a ydynt yn dymuno aros yn gyfranddaliwr y gymdeithas a’r cyfranddaliwr yn peidio ag ateb ei fod eisiau o fewn y cyfnod gosodedig a nodir yn llythyr y gymdeithas (a fydd yn ddim llai na thri mis neu
- os yw'r gymdeithas wedi cael gorchymyn yn eu herbyn gan lys cymwys neu dribiwnlys i adennill arian sydd yn ddyledus ganddynt i'r gymdeithas os cafodd y gorchymyn ei ohirio neu os yw'n orchymyn am dalu mewn rhandaliadau dim ond os methant gyflawni telerau'r gorchymyn y byddant yn peidio bod yn gyfranddaliwr ; neu

- os ydynt yn denant ac yn torri eu cytundeb tenantiaeth neu les mewn ffordd sylweddol neu ddifrifol ac yn methu unioni'r toriad hwnnw o fewn cyfnod rhesymol a gytunwyd gyda'r gymdeithas neu eu bod yn destun gorchymyn meddiant neu'n torri gorchymyn meddiant wedi'i ohirio neu'n destun unrhyw un o'r mathau dilynol o orchymyn llys: gorchymyn ymddygiad troseddol; gwaharddeb yn unol ag adran 1 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, tenantiaeth israddedig, neu orchymyn cau; neu unrhyw orchymyn barnwrol arall (o ba bynnag enw) sydd ag effaith gyfartal; neu
- eu bod yn dod yn berson awdurdod lleol; neu
- maent yn gyfranddaliwr annibynnol ac maent yn dod yn denant i'r gymdeithas
- ar ôl bod yn denant , bod cyfranddaliwr yn peidio bod yn denant. O dan Reol C14.13, mae gan y bwrdd ddisgresiwn i ganiatáu i berson o'r fath i aros yn gyfranddaliwr, ond polisi presennol y bwrdd yw ei fod yn dod i ben.
- ar ôl bod yn aelod o fwrdd neu bwyllgor, maent yn peidio â dal unrhyw swydd fel aelod o'r bwrdd neu bwyllgor oni bai bod y bwrdd yn ôl ei ddisgresiwn yn caniatáu i berson o'r fath aros yn gyfranddaliwr. O dan Reol C14.4, mae gan y bwrdd ddisgresiwn i ganiatáu i aelodau bwrdd neu bwyllgor sy'n gadael barhau i fod yn gyfranddaliwr, ond polisi presennol y bwrdd yw bod aelodau bwrdd annibynnol sy'n gadael yn dod i ben.

5.8.2 Dim ond o dan reol C15 Adra y gall cyfranddaliwr gael ei ddiarddel a rhaid i aelodaeth gael ei derfynu gan benderfyniad mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol neu mewn cyfarfod cyffredinol arbennig a gaiff ei alw gan y Bwrdd Bydd y Bwrdd bob amser yn gwerthuso materion yn ofalus yn gyntaf.

Wrth ystyried y mater, byddai'r Bwrdd yn ystyried yn ofalus a yw'r cyfranddaliwr wedi torri amodau Cod Ymddygiad Cyfranddalwyr. Efallai y bydd y Bwrdd am roi cyfle i'r Cyfranddaliwr wella ei ymddygiad, a gallai ysgrifennu at y Cyfranddaliwr i ofyn am hyn. Yn y pen draw, efallai y bydd y Bwrdd yn teimlo y dylid diarddel y Cyfranddaliwr, ac y gellid cyflwyno penderfyniad i'r Cyfranddalwyr yn unol â Rheol C15.

O dan y rheolau:

- Mae'n rhaid i'r Bwrdd roi rhybudd ysgrifenedig o un mis i gyfranddaliwr o'r cyfarfod cyffredinol. Rhaid i'r rhybudd i gyfranddalwyr nodi manylion y gŵyn o ymddygiad niweidiol i'r Gymdeithas, a rhaid gofyn i'r cyfranddaliwr fynychu'r cyfarfod i ateb y gŵyn.
- Mewn cyfarfod cyffredinol lle caiff y mater hwn ei gyflwyno, bydd y cyfranddalwyr yn ystyried y dystiolaeth a gaiff ei gyflwyno gan y Bwrdd a gan y cyfranddaliwr (os bydd yna). Bydd y cyfarfod yn mynd rhagddo heb i gyfranddaliwr fod yn bresennol.
- Os caiff penderfyniad ei wneud i wahardd cyfranddaliwr mewn cydymffurfiant â'r rheol hon, bydd y cyfranddaliwr yn peidio â bod yn gyfranddaliwr yn syth. Ni chaiff unrhyw berson a gafodd eu diarddel o aelodaeth eu hail-dderbyn heblaw drwy benderfyniad

a gariwyd gan bleidleisiau dau-draean yr Aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy ac yn pleidleisio mewn pleidlais mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod cyffredinol arbennig.

- Ni ellir defnyddio’r rheol hon i wahardd cyfranddaliwr llywodraeth leol.

5.8.3 Pan fydd cyfranddaliwr yn peidio â bod yn gyfranddaliwr neu'n cael ei ddiarddel o’r Gymdeithas, bydd ei gyfran neu ei chyfran yn cael ei ganslo. Bydd y swm o £1.00 (punt) sydd wedi ei dalu fel y nodir ym mharagraff 5.3.2 yn dod yn eiddo i Adra (yn unol â’r Rheolau).

## 6. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

6.1 Mae Adra yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn sgôp ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun.

## 7. ADOLYGU

7.1 Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd, neu mewn ymateb i unrhyw newid mewn deddfwriaeth, cyfarwyddyd rheolaethol, arfer da neu newid i un o bolisïau perthnasol Adra.